# Adroddiad Arolygu ar

**The Grange**

**The Grange**
**Lôn Pisgwydd**
**Caerfyrddin**
**SA31 1SN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

11 Ionawr 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â The Grange

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Consensus Support Services Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Mehefin 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae staff yn adnabod y bobl yn dda ac yn uchel eu cymhelliant i ddarparu gofal a chymorth personol. Mae'r awyrgylch yn y cartref yn gyffredinol yn ddigynnwrf gyda gweithwyr gofal yn gwybod eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r gefnogaeth y mae ei hangen ar bobl.

Mae pobl yn gallu gwneud rhai pethau sydd o bwys iddynt, ond mae diffygion staffio ac effaith y pandemig wedi cyfyngu cyfleoedd i dreulio amser i ffwrdd o'r cartref.

Mae hyfforddiant yn gyffredinol yn gyfredol, ond mae angen rhywfaint i sicrhau bod yr holl staff yn gallu gweithredu eu dyletswyddau yn ddiogel ac yn effeithiol. Hefyd, nid yw gofyniad y gwasanaeth i sicrhau cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu bob tri mis yn cael ei fodloni bob amser.

Mae yna ddatgysylltiad rhwng y rheini sy'n gweithio yn y cartref a'r rheini sy'n rheoli'r cartref, gyda rhai staff yn teimlo wedi'u cefnogi ac eraill yn disgrifio ysbryd isel iawn.

## Llesiant

Mae gweithwyr gofal yn trin pobl ag urddas a pharch. Maent yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag niwed gan fod gweithwyr gofal yn gwybod y camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd os ydynt yn amau bod unigolyn mewn perygl.

Caiff pobl eu cefnogi gan weithwyr gofal nad ydynt bob amser yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi gan eu rheolwyr neu eu bod yn gallu mynegi eu barn am y gwasanaeth. Mae hyfforddiant wedi cynyddu mewn rhai meysydd ac mae yna becyn cynefino manwl ar gyfer staff rheolaidd newydd. Mae yna ddibyniaeth sylweddol ar weithwyr gofal asiantaeth ac nid yw pob un yn cael cyfnod cynefino trylwyr cyn cychwyn eu dyletswyddau.

Mae'r bobl a'r rheini sy'n gofalu amdanynt yn ymgysylltu'n dda ac mae staff yn arddangos dealltwriaeth dda o bobl, eu hoffterau ac anhoffterau, yn ogystal â sut i adnabod hwyliau pobl.

Yn yr arolygiad blaenorol, nodwyd nad oedd pobl yn gallu gwneud pethau a oedd o bwys iddynt, fel yr amlinellwyd yn eu cynlluniau personol. Gwelsom fod rhai pobl wedi treulio amser i ffwrdd o'r cartref ond bod hyn wedi cael ei atal gan y pandemig yn ogystal â lefelau staffio yn y cartref. Mae pobl wedi treulio rhywfaint o amser yn ymweld â pharciau lleol a lleoedd eraill, ond nid yw pobl bob amser yn cael eu hamser dau i un dyranedig gyda gweithwyr gofal ar gyfer amser i ffwrdd o'r cartref.

Yn ystod y broses monitro ansawdd mewnol, mae pobl wedi nodi eu bod yn hapus gyda'r cymorth maent yn ei gael ond nid yw rhai bob amser yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau a wneir mewn perthynas â meysydd fel dewis bwydlen a dewis gweithiwr allweddol. Gwelsom fod pobl yn ymddangos wedi ymlacio yng nghwmni staff a nododd rhai i ni eu bod yn hapus.

Mae pobl yn byw mewn cartref sy'n gyfforddus ac, i ryw raddau, gyda gwedd bersonol. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r cartref ond byddai gwaith pellach yn gwella'r amgylchedd. Mae yna gynlluniau i adnewyddu'r gegin a disodli'r ffenestri. Nid yw'r gwaith i ddisodli ystafell ymolchi wedi cychwyn eto ond disgwylir y bydd yn cael ei gwblhau yn fuan. Mae'r cartref yn lân ar y cyfan ac nid oes arogleuon drwg.

## Gofal a Chymorth

Mae cofnodion gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn fanwl. Mae rhywfaint o ailadrodd ond mae gweithwyr gofal yn eu gweld yn ddefnyddiol ac mae ganddynt amser i'w darllen. Mae'r adolygiadau bob tri mis ychydig yn hwyr ac mae'r rheolwr wedi cadarnhau y bydd yr adolygiadau yn cael eu cwblhau yn y pythefnos nesaf.
Caiff nodau pobl eu cofnodi yn ogystal â sut mae gofal a chymorth i'w cynnig.
Mae cynlluniau gofal ac asesiadau risg yn amlinellu'n glir sut i adnabod arwyddion o drallod ac arddangosodd gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o bobl a'r camau yr oedd angen iddynt eu cymryd pe byddai unigolyn wedi cynhyrfu neu mewn poen.
Mae yna ffurflen gofnodi yn ffeiliau rhai pobl sy'n dangos y staff sydd wedi darllen y dogfennau perthnasol. Mae rhai ffurflenni yn nodi nad yw pob gweithiwr gofal wedi darllen y dogfennau fel y bo angen i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth fwyaf cyfredol am ofal a chymorth pobl.

Cynigir cymorth mewn modd digynnwrf a pharchus. Cynigir gofal personol mewn ffordd sy'n arddangos bod gweithwyr gofal yn gwybod pwysigrwydd urddas a phreifatrwydd. Mae gan bobl gynlluniau gweithgareddau ond nid yw'r rhain yn cael eu dilyn bob amser. Mae yna sawl rheswm dros hyn, gan gynnwys os yw'r unigolyn yn dewis gwneud rhywbeth gwahanol, y staff sydd ar gael, a'r gweithgareddau sydd ar gael o ganlyniad i'r pandemig.
Dywedwyd wrthym fod gan weithwyr gofal ddealltwriaeth dda o hoffterau ac anhoffterau deietegol pobl ac y cynigir prydau gwahanol pe na fyddai'r unigolyn am fwyta'r hyn a gynigir. Mae prydau yn ymlaciol a gwelsom bobl yn cael brecwast ar amser o'u dewis.

Gofynnwyd i bobl am eu barn am y gofal a chymorth y maent yn eu cael ac mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau yn gadarnhaol, ond mae rhai pobl yn ystyried nad ydynt bob amser yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau megis dewis y fwydlen, dewis eu gweithiwr allweddol a llunio eu cymorth. Roedd trafodaethau gyda gweithwyr gofal yn dangos bod barn pobl yn bwysig ac fe'i ceisir am agweddau ar eu gofal a chymorth.

Yn yr arolygiad diwethaf, nid ystyriwyd bod lefelau staffio'n ddigonol i sicrhau y gall pobl gyflawni eu canlyniadau personol. Gwnaeth yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau bod pobl yr asesir bod arnynt angen cymorth un-i-un yn cael hwn. Fodd bynnag, mae gan rai pobl amser dau i un wedi'i ddyrannu ac nid yw hwn yn cael ei ddarparu bob amser. Gwnaethom drafod hyn gydag uwch-reolwr, a wnaeth gadarnhau bod yr awdurdodau cyllido yn ymwybodol o hyn ac nad ydynt yn codi tâl am yr amser na ddarperir.
Mae rotâu dyletswydd yn dangos bod pum aelod o staff ar ddyletswydd bob shifft fel arfer. Ar gyfer rhai shifftiau, mae pedwar aelod o staff ar ddyletswydd ac, ar un achlysur, gwelsom fod tri aelod o staff, a olygai fod yn rhaid i'r rheolwr roi cymorth i bobl.
Dywedodd uwch-reolwr wrthym o gynlluniau i recriwtio staff ychwanegol a bod achosion

o ddiffyg staff o ganlyniad i salwch gan amlaf. Dywedodd rhai gweithwyr gofal fod lefelau staffio'n is na'r niferoedd sydd eu hangen yn aml ond roedd y rotâu dyletswydd y gwnaethom edrych arnynt yn nodi bod y niferoedd gan amlaf yn bum aelod bob shifft dydd.
Nid yw pobl wedi cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau o ganlyniad i'r pandemig. Dywedodd y rheolwr wrthym fod rhai o'r gweithgareddau yn ailddechrau. Roedd un unigolyn i fod i fynd i farchogaeth ac mae un arall wedi ailddechrau hydrotherapi.
Mae cofnodion yn dangos bod pobl yn treulio amser i ffwrdd o'r cartref. Mae hyn yn cynnwys teithiau i barciau a llynnoedd lleol, sydd weithiau yn cynnwys stopio am fwyd.
Mae therapydd cerddoriaeth yn ailddechrau ei sesiynau yn y cartref yn dilyn ymlacio'r rheolau o ganlyniad i'r pandemig.
Roedd yr amgylchedd yn ddigynnwrf drwy gydol yr arolygiad gyda gweithwyr gofal yn cydnabod ac yn ymyrryd yn briodol i atal unrhyw ddigwyddiadau andwyol.
Mae yna gyfleoedd i gynyddu amlder a natur gweithgareddau ar gyfer pobl ond nid ydym yn ystyried bod iechyd a lles pobl mewn perygl.

Mae yna rai systemau effeithiol ar waith ar gyfer storio a rhoi meddyginiaeth yn ddiogel. Caiff y rhesymau dros roi unrhyw feddyginiaeth yn ôl yr angen eu cofnodi ar y cofnod rhoi meddyginiaeth. Mae bron yr holl feddyginiaeth wedi cael ei rhoi fel y'i rhagnodir ac mae balans stoc y feddyginiaeth wedi'i gofnodi. Gwnaethom nodi bod un unigolyn wedi methu dos o'i feddyginiaeth ac nad oedd rheswm wedi'i roi ar y cofnod rhoi meddyginiaeth. Hefyd, nid oedd llofnod wedi cael ei ddarparu ar gyfer meddyginiaeth ar achlysur arall, ond roedd y gweithiwr gofal yn hyderus mai gwall cofnodi oedd hwn.
Mae proses wedi'i rhoi ar waith fel bod ail aelod o staff yn dyst i'r weithred o roi rhai meddyginiaethau. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn unrhyw anghysondebau ym malans y stoc.
Caiff tymheredd ystafelloedd ac oergelloedd eu cofnodi'n ddyddiol.

## Yr Amgylchedd

Mae pobl yn byw mewn cartref sydd mewn cyflwr da yn gyffredinol. Mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i'r ystafell golchi dillad, sy'n ddiogel rhag unrhyw fynediad anawdurdodedig.
Mae ystafelloedd gwely wedi'u haddurno'n dda a rhoddir gwedd bersonol iddynt gyda'r lliw a dodrefn yn cael eu dewis gan yr unigolyn.

Mae'r cartref yn lân ac nid oes arogleuon drwg. Byddai rhai rhannau o'r cartref yn cael budd o dynnu llwch ar lefelau uchel, ac mae'r gwydriad dwbl eilaidd yn y ffenestri yn ei gwneud yn anodd i staff lanhau rhwng y cwareli gwydr. Mae yna gynlluniau i ddisodli'r ffenestri ond, gan fod yr eiddo yn adeilad rhestredig, mae'n rhaid gwneud unrhyw waith yn unol â gofynion yr awdurdod lleol.

Mae'r heulfan yn oer ac felly nid yw'n lle cyfforddus i bobl ei ddefnyddio. Mae rhannau eraill o'r cartref yn gyfforddus yn gyffredinol ond, yn ôl anghenraid, ychydig yn llym.
Mae coridorau a grisiau yn rhydd rhag unrhyw flerwch a pheryglon.

Nid yw'r gwaith i adnewyddu'r gegin wedi dechrau eto ac nid oes dyddiad wedi'i osod ar gyfer hyn. Dywedodd y rheolwr wrthym fod cynlluniau i wneud y gegin yn fwy o bosibl, a fyddai'n ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r gegin i baratoi prydau. Er bod y gegin yn ddyddiedig, mae'n lân ac mae ganddi'r offer sydd eu hangen. Rhoddir y sgôr uchaf o bump iddi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Caiff pobl eu hamddiffyn rhag pobl anawdurdodedig yn dod i mewn i'r cartref. Mae'n ofynnol i ymwelwyr fewngofnodi mewn llyfr ymwelwyr a darparu tystiolaeth o brawf llif unffordd negatif. Cofnodir y tymheredd a lefelau dirlawnder ocsigen hefyd. Gwelsom y rhan fwyaf o staff yn gwisgo masgiau wyneb ond mae'n rhaid i'r darparwr atgoffa'r holl staff o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol.
Mae'r gerddi yn ddiogel, yn ddiogel ac yn hygyrch i bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae llyfryn cynefino cynhwysfawr ar gael ar gyfer pob aelod o staff rheolaidd newydd. Mae'r llyfryn yn darparu cofnod o'r wybodaeth a roddir i staff, sy'n cynnwys cyfrinachedd, diogelu a hyfforddiant. Mae'r ffeiliau yn arddangos bod gwaith dechreuwyr newydd yn cael ei adolygu, yn wythnosol i gychwyn ac yna'n fisol. Mae sylwadau a wnaed yn cynnwys, *"Rwyf wrth fy modd yma"* ac *"Mae X wedi cael dechrau da. Yn gweithio'n galed. Yn achub y blaen yn dda."*
Roedd un gweithiwr gofal asiantaeth yn gwneud ei shifft cyntaf a dywedodd, *"Gallai'r cyfnod cynefino fod wedi bod yn well"*, ond ystyriodd fod cynllun gofal yr unigolyn yn glir a nodwyd yr eglurodd gweithwyr gofal eraill ei ddyletswyddau iddo. Mae'r gweithiwr hwn wedi'i ddyrannu i ddarparu arsylwadau un-i-un ar gyfer unigolyn ac rydym wedi gofyn i'r darparwr ystyried pe byddai'n fwy priodol i'r gwaith dwys hwn gael ei ddyrannu i weithiwr gofal sydd â mwy o brofiad o weithio yn y cartref.

Mae yna ddatgysylltiad rhwng y rheolwyr a staff iau. Disgrifiodd rhai gweithwyr gofal weithio yn y cartref fel *"y gwaethaf y mae erioed wedi bod"* a gwnaethant ddisgrifio'r tîm rheoli fel *"ddim yn onest"*. Disgrifiwyd y cartref fel *"anhrefnus iawn"* ac roedd staff yn teimlo bod hyn yn cael effaith anffafriol ar y bobl sy'n byw yn The Grange. Disgrifiodd gweithiwr arall weithio yn y cartref fel *"iawn"* ac roedd yn credu bod y staff yn gweithio'n dda fel tîm. Ni welsom unrhyw dystiolaeth i nodi unrhyw anhrefniant. Dywedodd aelod arall o staff fod *"[y rheolwr] yn mynd y tu hwnt i'r gofyn ar gyfer y staff"* a disgrifiodd deimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n well yn The Grange nag mewn unrhyw swydd flaenorol oedd wedi'i chael.
O ganlyniad i'r materion a godwyd yn yr arolygiad diwethaf o ran ysbryd staff isel, trefnodd y darparwr sesiynau gwrando lle anogwyd staff i drafod y pryderon oedd ganddynt. Mae cyfarfodydd staff hefyd wedi cael eu cynnal ond ystyriwyd y presenoldeb yn isel.

Ystyrir pum gweithiwr gofal fesul shifft dydd yn angenrheidiol i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu'n effeithiol. Dywedodd rhai staff wrthym eu bod yn gweithio gyda llai na'r nifer hwn yn aml. Mae rotâu dyletswydd yn nodi bod pum aelod o staff yn y garfan i weithio'r rhan fwyaf o shifftiau ond bod rhai lle dim ond pedwar sydd ar ddyletswydd, sy'n golygu bod yn rhaid i'r rheolwr weithio ochr yn ochr â'r gweithwyr gofal. Dywedwyd wrthym y gellir priodoli diffygion i salwch staff ac anawsterau wrth recriwtio'r bobl iawn am y rolau. Nododd adroddiad ansawdd a gwblhawyd gan uwch-reolwr mai tri gweithiwr gofal yn unig oedd ar y shifft ar ddiwrnod ei ymweliad ond bod y rheolwr yn gweithio fel aelod ychwanegol o'r staff gofal. Dywedodd rhai gweithwyr gofal wrthym fod staff yn gweithio oriau hir iawn bob wythnos ond dywedodd eraill nad oeddent yn teimlo dan bwysau i weithio oriau ychwanegol. Mae rotâu dyletswydd yn dangos bod rhai staff yn gweithio dros 40 awr yr wythnos ond bod pob aelod o staff yn ymddangos i gael o leiaf dau ddiwrnod i ffwrdd bob wythnos.

Mae'r adroddiad ansawdd a gwblhawyd bum mis yn ôl gan uwch-reolwr yn nodi bod 79% o staff wedi cwblhau hyfforddiant craidd a 65% hyfforddiant cefnogi unigolion. Mae'r sgoriau ar gyfer hyfforddiant staff yn 92% ac 81% yn y drefn honno bellach. Dywedodd un gweithiwr gofal wrthym nad oedd wedi cael hyfforddiant mewn gofalu dros bobl ag epilepsi. Mae adroddiad a ddarparwyd yn dangos bod 70% o aelodau staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Rydym wedi cael sicrwydd bod hyfforddiant ychwanegol wedi'i drefnu i sicrhau bod pob aelod o staff wedi'u hyfforddi'n addas. Mae cofnodion yn dangos bod gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant mewn gofal geneuol, diogelu ac awtistiaeth.
Disgrifiodd un gweithiwr gofal yr hyfforddiant fel *“gwych”* ond dywedodd nad yw asesiadau’n cael eu cynnal o gymhwysedd y staff.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe’i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 36 | Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod staff yn cael cyfnod cynefino, hyfforddiant craidd a hyfforddiant arbenigol yn gyson. | Cyflawnwyd |
| 34 | Nid yw staffio bob amser yn ddigonol i sicrhau y gall unigolion gyflawni eu canlyniadau personol bob amser. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 16 | Roedd cynlluniau cymorth i'w hadolygu ym mis Rhagfyr 2021 ac nid yw hyn wedi'i gwblhau eto. | Newydd |
| 57 | Nid yw risgiau i iechyd a diogelwch unigolion yn cael eu nodi a'u lleihau mewn ffordd gyson. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 09/02/2022